# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Fferm Beudygwyn**

**Fferm Beudygwyn**
**Amlwch**
**LL68 0PR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Fferm Beudygwyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Achieve together Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [27 Mai 2021] |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Dywed y bobl eu bod yn hoffi byw yng nghartref Beudy Gwyn. Mae'r staff yn fedrus iawn, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn adnabod y bobl yn dda iawn. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau am eu bywydau bob dydd. Mae'r cynlluniau personol yn rhagorol, yn hynod fanwl, yn gyfredol ac yn adlewyrchu anghenion y bobl. Mae amrywiaeth o weithgareddau grŵp a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gael, sy'n cael eu hwyluso gan y staff.

Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli a'u bod yn cael hyfforddiant i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn rhagori ar yr hyn sy'n ofynnol na'r hyn sy'n ofynnol, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd i oruchwylio trefniadau rheoli'r cartref. Caiff safbwyntiau'r bobl a'u perthnasau eu casglu er mwyn helpu i wella a datblygu'r gwasanaeth, a chaiff y rhain eu hadlewyrchu yn yr adroddiadau ar ansawdd y gofal. Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n unol â'r datganiad o ddiben.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Maent yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a bod eu barn yn cael ei hystyried; maent yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r staff gofal yn gweithio'n unol â chynlluniau personol sydd wedi'u hysgrifennu ar y cyd â'r unigolyn ac sy'n rhoi gwybodaeth arbennig am anghenion cymorth yr unigolyn. Mae'r staff gofal yn bodloni dewisiadau'r bobl, ac mae'r staff ar bob lefel yn ymwybodol o'r hyn sy'n bwysig i'r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r bobl a'u perthnasau yn cael eu cynnwys yn y gwaith o wella a datblygu'r gwasanaeth. Mae pawb yn gallu dewis yr hyn y maent am ei fwyta a pha weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt, ac mae'r staff yn ymateb i anghenion y bobl yn dibynnu ar eu hymddangosiad y diwrnod. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli a gwelsom dystiolaeth o ystafell wedi'i haddurno i ddiwallu anghenion unigolyn ag amhariad ar y golwg. Mae'r cofnodion gofal yn rhoi lefel o gyfarwyddyd sy'n rhagori ar yr hyn sy'n ofynnol i gefnogi'r bobl yn gywir. Cynhelir adolygiadau yn unol â'r rheoliadau. Gwelsom fod y staff yn cefnogi'r bobl mewn ffordd fedrus sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff y bobl eu cefnogi i symud o amgylch y cartref yn ddiogel. Mae cydberthnasau cadarnhaol rhwng y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'r staff cymorth. Dywedodd y staff wrthym *'We are all like a family. It is a Beudy Gwyn culture.'*

Mae gweithgareddau grŵp a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gael yn y cartref. Gwelsom lyfrau lloffion a oedd yn dangos bod amrywiaeth o weithgareddau'n cael eu cynnal. Mae'r bobl yn cael cymorth i weddïo ac i gynnal cydberthnasau â chynrychiolwyr crefyddol.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae arwyddion dwyieithog ym mhob rhan o'r gwasanaeth a gwelwyd geiriau Cymraeg y mis hefyd. Mae nifer o breswylwyr sy'n siarad Cymraeg yn y gwasanaeth ac mae dros 50% o staff y gwasanaeth yn siarad Cymraeg. Mae'r gwasanaeth yn deall effaith y lleoliad gwledig ac yn sicrhau bod digon o gerbydau ar gael i gludo'r bobl o'r gwasanaeth pan fo angen.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal a gwella eu hiechyd a'u llesiant drwy allu cael gofal a chyngor arbenigol pan fydd eu hangen arnynt. Mae'r staff gofal yn rhagweithiol ac yn cydweithio ag asiantaethau cymorth. Anogir y bobl i fod yn annibynnol. Mae'r strategaethau ar gyfer lleihau'r risg i'r bobl wrth iddynt symud o amgylch y cartref yn dda. Mae'r person â chyfrifoldeb wedi nodi pob perygl posibl.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl deimlo'n hyderus bod gan ddarparwr y gwasanaeth gynllun cywir a chyfredol ar waith o ran sut y dylid darparu eu gofal er mwyn diwallu eu hanghenion. Anogir y bobl i gyd-lunio eu cynlluniau personol a gallant wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd o ran eu prydau bwyd, y dillad y maent am eu gwisgo, a phryd y maent am godi o'r gwely yn y bore. Mae dealltwriaeth fanwl o arferion y bobl a'u hoff bethau a'u cas bethau. Gwelsom gynlluniau personol blaengar o ansawdd uchel sy'n darparu gwybodaeth sy'n rhagori ar yr hyn sy'n ofynnol. Mae asesiadau risg cadarn iawn ar waith a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Cynhelir asesiadau cyn derbyn cynhwysfawr cyn i bobl symud i'r cartref. Mae'r dogfennau sydd wedi'u cwblhau yn rhoi cipolwg ar hanes y bobl a'u rheswm dros symud i'r cartref. Mae'r staff gofal yn darparu cymorth medrus i'r bobl yn unol â'u cynlluniau personol a'u hasesiadau risg. Mae'r staff yn cael gwybod am newidiadau i anghenion yn ystod y cyfnod trosglwyddo ac mewn llyfrau cyfathrebu unigol sy'n cael eu cadw ar gyfer pob unigolyn. Dywedodd y bobl a'u teuluoedd wrthym fod y staff yn gynhwysol ac yn '*fantastic'*.

Mae'r bobl yn gallu dewis yr hyn y maent am ei fwyta bob dydd ac nid oes rhaid iddynt gadw at fwydlen ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r staff yn ymwybodol o ofynion deietegol arbenigol ac yn cadw atynt. Defnyddir cyfarpar a dulliau codi a chario priodol lle bo angen. Mae gan y bobl eu tîm dynodedig o staff craidd.

Mae'r cofnodion yn dangos bod cyngor a chymorth arbenigol gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol ar gael i'r bobl. Caiff cynlluniau gofal personol ac asesiadau risg eu diweddaru i adlewyrchu cyngor proffesiynol. Mae hyfforddiant priodol a hyfforddiant pwrpasol sydd wedi'i deilwra'n benodol i anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ar gael i'r staff. Dywedodd y staff wrthym y gallant fynd at y rheolwr os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

Mae'r arferion atal a rheoli heintiau yn y cartref yn dda ac yn cadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r systemau sydd ar waith ar gyfer rheoli a goruchwylio meddyginiaeth yn rhagori ar yr hyn a ddisgwylir. Polisi Darparwr y Gwasanaeth yw cynnal archwiliadau meddyginiaeth misol. Fodd bynnag, caiff archwiliadau meddyginiaeth ar gyfer pob unigolyn hefyd eu cwblhau'n ddyddiol gan y staff, yn fisol gan y rheolwr, ac yn chwarterol gan y rheolwr rhanbarthol. Mae hyn yn dangos bod gan y gwasanaeth ddull gweithredu rhagweithiol ac ataliol. Mae'r staff sy'n rhoi meddyginiaeth wedi cael yr hyfforddiant cywir ac yn cwblhau asesiadau cymhwysedd rheolaidd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae darparwr y gwasanaeth yn buddsoddi yng ngwaith addurno a chynnal a chadw'r cartref er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y bobl. Mae'r ystafelloedd a'r ardaloedd cymunedol mewn cyflwr da. Mae'r amgylchedd wedi cael ei ddefnyddio'n greadigol i ddarparu canolfan gweithgareddau ar y safle, sy'n cynnwys bwrdd pŵl, cegin, llyfrgell DVDs ac amrywiaeth o weithgareddau eraill. Cynhelir gweithgareddau cymunedol yn yr ardal hon a gwneir defnydd helaeth ohoni, a chaiff y bobl eu cynnwys yn y gwaith o'i haddurno a'i dodrefnu. Gall y bobl ddewis cymdeithasu yn yr ardaloedd cymunedol a chael preifatrwydd yn eu hystafelloedd eu hunain, os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Mae'r ystafelloedd yn lân, yn daclus ac wedi'u personoli. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd yn unol â'u chwaeth eu hunain gyda'u heiddo personol. Caiff cyfarpar codi a chario ei storio'n hygyrch, ond yn ddiogel allan o'r ffordd er mwyn atal pob rhag baglu a disgyn.

Caiff yr ardal awyr agored ei chynnal a'i chadw'n dda gan aelod dynodedig o'r staff sy'n gyfrifol am gynnal a chadw. Mae'r aelod hwn o'r staff yn annog y bobl i gymryd rhan yn y gwaith sy'n cael ei gwblhau o amgylch y cartref os byddant yn dymuno gwneud hynny. Gofynnir i ymwelwyr lofnodi llyfr llofnodi cyfrinachol a chadarnhau pwy ydynt wrth gyrraedd. Gwelsom gamau'n cael eu cymryd i wella'r amgylchedd mewn cyfnod byr o amser.

Gall y bobl fod yn hyderus bod darparwr y gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch drwy gynnal archwiliadau cynhwysfawr. Mae'r staff cynnal a chadw yn ymdrin â'r camau gweithredu sy'n deillio o'r archwiliadau hyn yn gyflym a chânt eu monitro gan y tîm rheoli a'r Unigolyn Cyfrifol. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd eu cwblhau ar gyfer diogelwch tân, diogelwch dŵr a chyfarpar. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gwiriadau cynnal a chadw, diogelwch a gwasanaethu gofynnol ar gyfer y systemau nwy a thrydan yn gyfredol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn hyderus bod gan ddarparwr y gwasanaeth systemau cryf ar waith ar gyfer llywodraethu a goruchwylio'r gwasanaeth. Gwelsom fod archwiliadau dyddiol, wythnosol, misol a chwarterol helaeth yn cael eu cwblhau. Mae'r staff a'r rheolwr yn cwblhau cofnodion cynhwysfawr o ddamweiniau a digwyddiadau ac yn eu dadansoddi. Mae'r adroddiadau am ddamweiniau a digwyddiadau yn nodi cyfleoedd i ddysgu ar gyfer dyfodol ac i rannu gwersi a ddysgwyd â gwasanaethau eraill. Gwelsom gofnodion o ymweliadau rheolaidd yr Unigolyn Cyfrifol â'r gwasanaeth. Mae'r adroddiadau hyn yn gwerthuso'r arweinyddiaeth ac yn dangos a yw'r bobl yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau a'u cynnwys wrth adolygu'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg sydd ar waith. Mae'r cartref yn cynnal arolwg o ansawdd y gofal bob chwe mis. Mae hyn yn trafod yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen ei wella. Mae'r darparwr wedi cyflwyno adroddiad blynyddol fel sy'n ofynnol gan y rheoliad.

Cynhelir cyfarfodydd tenantiaid yn rheolaidd, a chaiff y bobl eu hannog i rannu syniadau am nifer o agweddau ar y gwasanaeth. Gwelsom drafodaeth a gwaith cynllunio ar gyfer parti gwisg ffansi Calan Gaeaf i'w gynnal yn y ganolfan gweithgareddau, a ddeilliodd o awgrym a wnaed yn y cyfarfod tenantiaid. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn casglu adborth yn uniongyrchol gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywed y bobl y gallant siarad â'r rheolwr am newidiadau i'w gofal ac y caiff camau gweithredu eu cymryd, a'u bod yn teimlo bod y rheolwr yn rhagweithiol ac yn angerddol.

Gall y bobl fod yn fodlon y byddant yn cael eu cefnogi gan wasanaeth sydd â niferoedd priodol o staff addas. Mae gan y staff y wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a’r cymwysterau i ddarparu’r lefelau o ofal a chymorth sydd eu hangen i alluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r cofnodion yn dangos bod gan y rheolwr niferoedd addas o staff ar bob shifft i ddiwallu anghenion y bobl. Mae cofnodion y staff yn dangos bod staff newydd yn destun gwiriadau fetio trylwyr cyn dechrau gweithio yn y cartref, a'u bod yn cael hyfforddiant sefydlu manwl sy'n benodol i'w rôl dros gyfnod o 90 diwrnod. Mae'r staff yn cael arfarniadau blynyddol a chyfarfodydd goruchwylio un i un gyda'r rheolwr. Gwelsom ddiwylliant cadarnhaol, blaengar ar bob lefel o'r strwythur staff. Mae'r staff yn dangos brwdfrydedd a'r awydd i ddysgu'n barhaus, ‘*I believe we can always learn something new every day we work’.*

Dywed y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr a bod yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i ddiwallu anghenion y bobl ar gael. Dywedodd y staff wrthym *‘Working here has changed my life for the better’*. Mewn ymateb i adborth a gafwyd gan y staff, mae darparwr y gwasanaeth wedi creu ap ar gyfer y staff sy'n anelu i wella'r cyfathrebu ar bob lefel yn y sefydliad a gwella llesiant y staff. Cynhelir cyfarfodydd ‘Oi Exec’

cyfrinachol er mwyn i'r staff siarad â Phrif Swyddog Gweithredol darparwr y gwasanaeth am faterion fel cyflog a chyfleoedd i gamu ymlaen yn eu gyrfa. Mae darparwr y gwasanaeth yn cysylltu â'r staff i gadarnhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac i ofyn a oes unrhyw beth y gallai ei wneud i wella.

Darperir hyfforddiant i'r staff drwy gyfuniad o hyfforddiant ar-lein a hyfforddiant wyneb yn wyneb. Caiff hyfforddiant pwrpasol ei drefnu yn unol ag anghenion cymorth unigol y bobl. Caiff y cofnodion hyfforddiant eu hadolygu a'u diweddaru er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchiad cywir o gydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant.

Gall y bobl fod yn hyderus bod darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio trefniadau ariannol y gwasanaeth a'r buddsoddiad ynddo, er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn cefnogi'r bobl i fod yn ddiogel ac i gyflawni eu canlyniadau personol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/12/2023